# MAPIO'R SYSTEM FWYD

## Eglurhad

Adnodd yw **mapio'r system fwyd** er mwyn casglu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd, ac ym mhle, yn y system fwyd leol. Gallai hyn gynnwys (er enghraifft) lleoliad siopau sy'n gwerthu cynnyrch cynaliadwy neu leol, ffermwyr a thyfwyr yn yr ardal, prosiectau sy'n canolbwyntio ar faterion bwyd a chwsmeriaid neu ddarparwyr mawr bwyd. Mae'r broses fapio yn gyfranogol, yn weledol ac yn rhyngweithiol, ac yn annog pobl i rannu a chofio gwybodaeth ddefnyddiol am fwyd.

Mae'r adnodd hwn yn disgrifio map o'r system fwyd a all gael ei ddatblygu gan grŵp llywio partneriaeth, grŵp rheoli neu grŵp o unigolion gweithredol ac â diddordeb sy'n rhan o'r bartneriaeth. Gall cyfranogwyr mewn digwyddiad bwyd neu Uwchgynhadledd Fwyd greu'r map hefyd (gweler yr adnodd) os oes angen hwyluso'r broses mewn ffordd wahanol (gweler yr adran **MAP O'R SYSTEM FWYD - ar gyfer digwyddiadau**).

I gael gwybodaeth am y perthnasoedd a'r cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid amrywiol a materion yn ymwneud â bwyd, bydd **MAP MEDDWL SYSTEM FWYD** (gweler isod) yn fwy defnyddiol.

## Cyflwyniad

- Bydd yr ymarfer mapio hwn yn eich helpu i archwilio'r hyn rydych eisoes yn ei wybod am y bobl a'r lleoedd sy'n bwysig yn y sector bwyd lleol
- Dylid un ai ysgrifennu'n uniongyrchol ar y map neu ddefnyddio nodiadau post-it a thynnu llinellau i'r lleoliad perthnasol ar y map
- Bydd angen:
  - papur siart fflip,
  - nodiadau post-it,
  - pennau lliw ffelt trwchus a thenau,
  - smotiau gludiog a
  - map ar raddfa fawr o'ch ardal, tref, dinas ac ati .
    (os na allwch gael map, crëwch eich map eich hun - gweler yr **Awgrymiadau** isod)

## Beth i'w wneud

- Mae hi'n bwysig sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn y broses fapio yn cyfranogi cymaint ag yr hoffent
- Hwyluswch y broses drwy ddod â'r grŵp at ei gilydd o amgylch y map neu'r papur siart fflip mewn ffordd sy'n caniatáu i bawb, cyn belled ag sy'n bosibl, i weld y map yn yr un ffordd, a chyfrannu'n gyfartal at ysgrifennu ar y map
- Darparu digon o feiros a nodiadau post-it i bawb

- Dylid annog trafodaeth tra bod y map yn cael ei ddatblygu. Mewn sawl ffordd, mae'r broses o ddarlunio'r map mor bwysig a gwerthfawr â'r map gorffenedig ei hun
- Recordiwch bwyntiau a sylwadau allweddol y drafodaeth - nail ai ar y map neu ar siart fflip ar wahân
- Dylid annog archwilio'r gweithgaredd ledled y sector bwyd i gyd, ac ar draws sectorau gwahanol, drwy ofyn cwestiynau sbarduno
- Cyn dechrau'r map, mae hi'n bwysig cytuno mai ffocws y map yw deall gweithgareddau presennol drwy gyfrannu at system fwyd gynaliadwy, ac egluro beth mae hynny'n ei olygu

- **Diffiniadau:**

  **SYSTEM FWYD**
  Rhyng-gysylltiadau o ran sut rydym yn: cynhyrchu, prosesu, cludo, prynu, bwyta a gwaredu'r bwyd a'r ffordd y mae hyn yn effeithio arnom ni fel unigolion a chymunedau.

  **BWYD CYNALIADWY**
  Bwyd sy'n cael ei gynhyrchu, prosesu, masnachu a'i waredu mewn ffyrdd sy'n:
  - cyfrannu at economïau lleol ffyniannus ac sy'n cynnal bywoliaeth pobl sy'n gweithio yn y sector bwyd **(CYNALIADWYEDD ECONOMAIDD)**
  - amddiffyn amrywiaeth planhigion ac anifeiliaid ac osgoi niweidio adnoddau naturiol a chyfrannu at newid hinsawdd **(CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL)**
  - darparu manteision cymdeithasol, megis bwyd o ansawdd da, cynnyrch diogel ac iachus a chyfleoedd addysgol **(CYNALIADWYEDD CYMDEITHASOL)**

- **Cwestiynau sbarduno yn ystod y broses fapio:**

  - **Pa leoedd ydych chi'n gwybod amdanynt sy'n gwerthu bwyd a diod cynaliadwy?**
    Meddyliwch am siopau, marchnadoedd, caffis, bwytai a thafarndai. Beth sy'n dda/wael am allfeydd fel hyn?

  - **Pa sefydliadau sy'n darparu bwyd wedi'i baratoi (ysgolion, ysbytai ac ati)?**
    Pa rai fyddai'n gallu, neu sydd eisoes yn dod o hyd i gynhwysion mewn modd cynaliadwy?

  - **Ym mhle arall allwch chi gael bwyd cynaliadwy?**
    Meddyliwch am gynlluniau bocsys, siopau fferm, cynlluniau cludo

  - **Pa leoedd ydych chi'n ymwybodol ohonynt sy'n tyfu, cynhyrchu, dal neu chwilota (forage) am fwyd lleol?** Meddyliwch am ffermydd, prosiectau tyfu, busnesau prosesu bwyd, ffermydd pysgod a fflydiau pysgota

  - **Pa sefydliadau neu unigolion lleol ydych chi'n eu nabod sydd ynghlwm wrth gefnogi, hyrwyddo neu godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â bwyd cynaliadwy?**
    Meddyliwch am y sector statudol/cyhoeddus, busnesau neu sefydliadau bwyd y trydydd sector

- Gweithiwch fel grŵp i benderfynu beth ddylid ei gynnwys ar y map a sut i anodi'r map
- Gall y map fod yn adnodd 'byw' parhaus i'w ddefnyddio ac ychwanegu ato mewn cyfarfodydd/digwyddiadau amrywiol
- Mae hefyd yn adnodd defnyddiol i arddangos ystod ac egni eich system fwyd, a gellid ei ddefnyddio i arddangos elfennau gwahanol ar eich system fwyd mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid
- Gellid cadw'r map yn adnodd analog â llaw neu, os yw'r arbenigedd ar gael, gellid ei droi'n fersiwn ddigidol fel bod modd ei rannu a'i storio'n rhwydd

## Awgrymiadau

- Os nad oes gennych fap, crëwch fap eich hun ar siart fflip neu ddarn mawr o bapur.
- Dechreuwch drwy fapio'r lleoliad rydych chi'n cwrdd ynddo, neu ganol eich tref. Ychwanegwch eich cartrefi, ac yna mannau o ddiddordeb sy'n ymwneud â bwyd, a sut maen nhw'n gysylltiedig.
- Yn aml, mae hyn yn fwy diddorol nag anodi map wedi'i argraffu, ac yn helpu i rannu safbwyntiau gwahanol ar y system fwyd.
- Wrth fapio, defnyddiwch liwiau gwahanol i wahaniaethu rhwng y categorïau sectorau/rhanddeiliaid gwahanol:

  **COCH** = sector statudol/cyhoeddus
  **GLAS** = sector busnes/preifat
  **GWYRDD** = trydydd sector/sector cymunedol a gwirfoddol
  **OREN** = unigolion actif

- Defnyddiwch nodiadau post-it â lliwiau gwahanol, smotiau lleoliadau gludiog neu bennau i anodi'r map a rhoi sylwadau. Mae hyn yn gwneud y map yn haws ei ddadansoddi'n weledol.
- Gellid defnyddio lliwiau amgen er mwyn cynrychioli mathau gwahanol o weithgareddau'n ymwneud â bwyd:

  **COCH** = cynhyrchwyr/proseswyr
  **GLAS** = cyfanwerthwyr/cludwyr
  **OREN** = manwerthwyr/arlwywyr (gan gynnwys siopau, marchnadoedd, caffis ac ati)
  **PIWS** = sefydliadau caffael (ysbytai, ysgolion, carchardai ac ati)
  **GWYRDD** = ailgylchu dros ben/creu ail bwrpas/ail-ddyrannu a banciau bwyd

- Gellid ychwanegu at y mapiau mewn digwyddiadau gwahanol, a'u defnyddio mewn cyflwyniadau i arddangos ystod y gweithgareddau bwyd amrywiol


food matters sustainable, fair food systems
Soil Association
sustain the alliance for better food and farming

# MAPIO'R SYSTEM FWYD MEWN DIGWYDDIADAU

## Eglurhad

Mae'r adnodd hwn yn disgrifio map system fwyd a ddatblygir gan gyfranogwyr mewn digwyddiad bwyd neu UWCHGYNHADLEDD BWYD. Bydd angen cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer yr adnodd, oherwydd ni fydd yn cael ei hwyluso'n uniongyrchol.

## Cyflwyniad

- Mae'r ymarfer mapio hwn yn helpu cyfranogwyr yn y digwyddiad i rannu'r hyn y maen nhw eisoes yn ei wybod am y bobl a'r lleoedd sy'n bwysig yn y system fwyd leol
- Gall cyfranogwyr naill ai ysgrifennu'n uniongyrchol ar y map neu ddefnyddio nodiadau post-it a thynnu llinellau i'r lleoliad perthnasol ar y map.
- Bydd angen:
    - papur siart fflip,
    - nodiadau post-it,
    - pennau lliw ffelt trwchus a thenau,
    - smotiau gludiog a
    - map ar raddfa fawr o'ch ardal, tref, dinas ac ati .

## Beth i'w wneud

- Rhowch y map a'i gyfarwyddiadau yn rhywle amlwg yn lleoliad y digwyddiad (ar stondin/wal os yw'n bosibl)
- Gludwch y map i ddarn mwy o bapur i sicrhau bod lle i ychwanegu gwybodaeth o amgylch y map a'i gysylltu â'r smotiau gludiog ar y map ei hun
- Anogwch y cyfranogwyr i gael golwg ar y map cyn y digwyddiad (wrth iddynt gyrraedd a setlo), yn ystod yr egwyliau lluniaeth neu ginio, ac ar ôl y digwyddiad (cyn gadael)
- Rhowch y teitl a'r cyfarwyddiadau ger y map a'u hegluro os oes angen

**Gweithgareddau bwyd yn ac o amgylch e.e. Leeds (nodwch eich lleoliad, tref, dinas, ardal) PWY sy'n gwneud BETH, BLE a PHAM?**

→ Ychwanegwch smotiau gludiog lliwgar i'r map er mwyn nodi lleoliad y gweithgaredd
→ Ychwanegwch sylwadau ar nodiadau post-it o amgylch y map, a
→ chysylltwch y sylwadau â'r smotyn perthnasol drwy ddarlunio llinell rhyngddyn nhw
→ Defnyddiwch y cod lliw canlynol ar gyfer y smotiau gludiog (a/neu nodiadau post-it):

COCH = sector statudol/cyhoeddus
GLAS = sector busnes/preifat
GWYRDD = trydydd sector/sector cymunedol a gwirfoddol
OREN = unigolion actif

- Yn y digwyddiad, anogwch gyfranogwyr i ddarllen beth mae pobl eraill wedi'i nodi ar y map, gan fod hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau yn y sector bwyd. Bydd hefyd yn annog y broses o greu cysylltiadau a meithrin perthnasoedd rhwng rhanddeiliaid amrywiol
- Ar ôl y digwyddiad, cofiwch ludo unrhyw nodiadau post-it gyda thâp clir a recordio enw'r digwyddiad, y lleoliad a'r dyddiad y cafodd ei gynhyrchu

# CREU MAP MEDDWL O'R SYSTEM FWYD

## Eglurhad

Defnyddir **mapiau meddwl** (sydd hefyd yn cael eu galw'n 'siartiau pryf cop' ac sy'n debyg i 'ddarluniau cyfoethog') i sbarduno trafodaeth rhwng cyfranogwyr a datgelu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol a all fod ym meddiant y grŵp. Gofynnir cwestiwn allweddol i'r grŵp ei ystyried. I ddechrau, bydd bob cyfranogwr yn ystyried y cwestiwn ar ei ben ei hun, ac yna bydd y grŵp yn rhannu safbwyntiau unigol, yn nodi themâu cyffredin, yn archwilio sut maen nhw'n gysylltiedig, yn edrych ar y themâu yn fanylach, yn blaenoriaethu ac yn chwilio am gonsensws ac unrhyw anghydfod (mae'r ddau yn ddilys ac yn ddefnyddiol), gan gofnodi popeth ar y map meddwl.

Ar gyfer unrhyw wybodaeth ddaearyddol am leoliadau pobl, busnesau neu fannau, dylid defnyddio **MAP O'R SYSTEM FWYD** (gweler uchod).

## Cyflwyniad

- Bydd yr adnodd hwn yn eich helpu i feithrin dealltwriaeth o'r sector bwyd lleol drwy ganfod eich barn, a'r hyn rydych chi eisoes yn ei wybod am beth sy'n digwydd
- Bydd mapiau meddwl yn helpu i fynd i'r afael â chwestiynau allweddol, ac yn cyfleu'r drafodaeth ac unrhyw allbynnau
- Bydd angen:
    - papur siart fflip,
    - nodiadau post-it,
    - pennau lliw ffelt trwchus a thenau, a
    - smotiau gludiog

## Beth i'w wneud

**Cwestiwn 1**

**Beth yw'r materion bwyd lleol pwysicaf?** (yn eich tref, dinas, ardal)

- Ysgrifennwch y cwestiwn yng nghanol y siart fflip sydd wedi'i nodi'n fflat ar y bwrdd neu i fyny ar wal ble gall yr holl gyfranogwyr ei weld
- Bydd pob cyfranogwr yn ysgrifennu eu hymatebion unigol ar nodiadau post-it.

  **PWYSIG**: dylid ysgrifennu pob ymateb ar wahân ar nodyn post-it ar wahân

- Pan fydd pawb wedi gorffen ysgrifennu, ewch o amgylch y grŵp a bydd pawb yn eu tro yn rhoi un o'u nodiadau post-it ar y siart fflip, ac yn egluro'r mater a pam ei fod yn bwysig

**Trafodaeth grŵp**

- Fel grŵp, crëwch glwstwr o faterion tebyg drwy roi nodiadau post-it mewn grwpiau (defnyddiwch siart fflip ar wahân os oes angen)
- Ar ôl cytuno ar y clystyrau, rhowch gylch o amgylch pob un, rhowch bennawd cryno i'r clwstwr a'i gysylltu â'r cwestiwn canolog gyda llinell yn defnyddio lliwiau gwahanol, ac â chlystyrau eraill os ydyn nhw'n berthnasol/gysylltiedig mewn unrhyw ffordd

**Sbardunau trafod**

- Pa faterion ydych chi'n cytuno sy'n bwysig? Pam?
- Pa rai sydd fwyaf/lleiaf pwysig yn eich barn chi? Pam?

- Ychwanegwch sylwadau defnyddiol o'r drafodaeth am y materion at y map meddwl, a chysylltu â'r materion gan ddefnyddio llinell liwgar

**Cwestiwn 2**

**Pwy sy'n gwneud beth yn eich system fwyd leol?**

- Ysgrifennwch y cwestiwn yng nghanol siart fflip newydd

**Cwestiynau a all sbarduno trafodaeth**

- Pwy yw'r prif randdeiliaid - pobl/grwpiau/busnesau/sefydliadau sydd: fwyaf
  ynghlwm wrth y system fwyd?
  â'r dylanwad mwyaf ar y system fwyd?
  fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan newidiadau yn y system fwyd lleol?

- Pa bobl, grwpiau, busnesau a sefydliadau sy'n chwarae rhan weithredol ym materion bwyd lleol, neu sy'n cynhyrchu, gwerthu neu ddarparu bwyd lleol?

- Bydd pob cyfranogwr yn ysgrifennu eu hymatebion ar nodiadau post-it.

- **PWYSIG**: ysgrifennwch bob ymateb ar wahân ar nodyn post-it ar wahân

- Pan fydd pawb wedi gorffen ysgrifennu, ewch o amgylch y grŵp a bydd pawb yn eu tro yn gludo un o'u nodiadau post-it ar y siart fflip ac yn egluro pwy yw e, a beth maen nhw'n ei wneud

**Trafodaeth grŵp**

- Fel grŵp, rhowch randdeiliaid tebyg mewn clwstwr a grwpiau o nodiadau post-it.
- Ar ôl cytuno ar y clystyrau, darluniwch gylch o amgylch pob un. Rhowch bennawd cryno a'i gysylltu â'r cwestiwn canolog gyda llinell yn defnyddio lliwiau gwahanol

**Sbardunau trafod**

- Pwy yw'r rhanddeiliaid pwysicaf? Pam?
- A oes unrhyw rai nad ydynt yn bwysig yn eich barn chi? Pam?
- Sut mae'r rhanddeiliaid gwahanol yn gysylltiedig?
- Pa rôl allai rhanddeiliaid amrywiol ei chwarae yn y Bartneriaeth Fwyd?
- Gyda pha unigolion penodol y dylid cysylltu a mynd atynt fel cyfranogwyr Grwpiau Llywio posibl?

- Ychwanegwch sylwadau defnyddiol o'r drafodaeth â'r map meddwl a'u cysylltu â'r materion gyda llinellau lliwgar.

## Awgrymiadau

- Defnyddiwch linellau lliwgar i nodi'r gwahaniaeth rhwng themâu a gwneud y siart yn rhwyddach i'w ddeall, ac yn gyffrous yn weledol
- I ddechrau, defnyddiwch nodiadau post-it ar gyfer sylwadau, oherwydd efallai y bydd angen symud sylwadau o amgylch y siart wrth greu clystyrau o sylwadau tebyg
- Ar ôl cwblhau'r clystyru, gellid anodi'r siart mewn unrhyw ffordd yr hoffech (ysgrifennu'n uniongyrchol ar y siart fflip fyddai orau) er mwyn egluro perthnasoedd, sylwadau ac ychwanegu gwybodaeth
- Ffordd syml o flaenoriaethu materion neu randdeiliaid yw defnyddio smotiau gludiog i bleidleisio ar gyfer y 3 GORAU a thrafod y sgôr. (Bydd nifer y pleidleisiau y gallwch eu cael yn dibynnu ar faint o eitemau rydych chi'n dewis ohonynt. Fel arfer, gadewch i gyfranogwyr bleidleisio dros hanner neu ychydig o dan hanner o gyfanswm yr eitemau).